

# Diwrnod Cofio'r Holocaust Gwasanaeth Ysgolion Cynradd



YMDDIRIEDOLAETH  
DIWRNOD  
COFIO'R HOLOCAST

**Athrawon** nodwch fod y gwasanaeth hwn yn addas ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 neu gyfwerth.

Mae'n esbonio beth yw Diwrnod Cofio'r Holocaust a sut gallwn ni ei nodi. Gallwch ei gyflwyno ar neu o gwmpas 27 Ionawr, fel sy'n addas i'ch ysgol a'ch anghenion.

Rydym ni wedi darparu sript a sleidiau PowerPoint i helpu athrawon i gyfleu'r wybodaeth a negeseuon allweddol yn ôl y gofyn. Mae croeso i chi addasu ac amrywio'r iaith a'r cynnwys fel y mynnwch ar gyfer eich myfyrwyr chi.

## Sript y gwasanaeth:

### Sleid 1 – Teitl

Dangoswch hwn wrth i'r myfyrwyr gyrraedd.

### Sleid 2 – Diwrnod Cofio'r Holocaust

Bob blwyddyn ar 27 Ionawr, mae pobl ar hyd a lled y DU yn nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust trwy gynnal digwyddiadau, gwasanaethau, goleuo canhwyllau, perfformiadau a llawer o ddigwyddiadau eraill.

Rydym ni'n gwneud hyn er mwyn cofio am ddigwyddiadau'r gorffennol pan gafodd pobl eu trin yn ofnadwy, a hyd yn oed eu lladd, a hynny'n unig oherwydd eu crefydd neu liw eu croen.

### Sleid 3 – Yr Iddewon

Mae'r Holocaust yn cyfeirio at y cyfnod pan gafodd yr Iddewon yn Ewrop eu trin yn ofnadwy a'u lladd tua adeg yr Ail Ryfel Byd. Mae'r bobl Iddewig yn dilyn crefydd o'r enw Iddewiaeth. Maen nhw'n addoli mewn adeilad o'r enw'r synagog, yn cael eu harwain gan Rabi, ac yn darllen llyfr sanctaidd o'r enw y Tora. Roedd yr Iddewon yn byw ar hyd a lled Ewrop cyn yr Holocaust.

### Sleid 4 – Y Natsïaid

Yn y 1930au, roedd dyn o'r enw Adolf Hitler yn arwain Plaid y Natsïaid yn yr Almaen. Roedd y Natsïaid yn credu nad oedd yr Iddewon gystal â'r Almaenwyr. Fe wnaethon nhw gyflwyno deddfau oedd yn gwahardd yr Iddewon rhag mynd i'r ysgol a gwneud rhai swyddi. Er enghraifft, doedd Otto Deutsch ddim yn cael chwarae pêl-droed yn y parc mwyach, am mai Iddew oedd e. Dechreuodd y Natsïaid gynllunio am ffyrdd i'w gwneud hi'n anodd iawn i'r Iddewon fyw yn Ewrop.

### Sleid 5 – Gwahaniaethu

Pan rydych chi'n trin grŵp o bobl yn wael oherwydd pwy ydyn nhw – o ran hil, crefydd, neu achos eu bod nhw'n 'wahanol' i chi, mae hyn yn enghraifft o wahaniaethu. Roedd y Natsïaid yn gwahaniaethu yn erbyn y Natsïaid am eu bod nhw'n wahanol iddyn nhw. Mae gwahaniaethu yn dal i ddigwydd yn ein cymdeithas ni heddiw.

## Sleid 6 – Yr Holocaust

Aeth y Natsïaid ati i geisio lladd holl Iddewon Ewrop. Fe wnaethon nhw eu gorfodi i adael eu cartrefi a byw mewn llefydd afiach fel getos a gwersylloedd crynhoi. Roedden nhw'n gorfod gweithio'n galed, a ddim yn cael hanner digon o fwyd. Cafodd llawer iawn eu llofruddio.

Ffoi fu hanes rhai, fel Anne Frank. Fe wnaeth eraill, fel Bernd Koschland, lwyddo i ddianc i wlad arall. Cafodd rhai, fel Susan Pollack, eu cymryd gan y Natsïaid ond fe wnaethon nhw oroesi.

## Sleid 7 – Wedi'r Holocaust

Wedi'r Holocaust, fe wnaeth y byd ddweud 'Ddylai hyn fyth digwydd eto!'. Ond yn anffodus, mae troseddau tebyg wedi digwydd mewn sawl gwlad ledled y byd, ac yn dal i ddigwydd heddiw.

Dyna pam mae'n rhaid i ni ddysgu am beth ddigwyddodd, ei gofio ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, a meddwl sut allwn ni greu byd lle does neb yn gwahaniaethu yn erbyn pobl eraill.

## Sleid 8 – Darllen cerdd (gallai myfyriwr neu griw o fyfyrwyr ddarllen hon)

*Racism* yw enw'r gerdd hon, ac fe gafodd ei hysgrifennu gan Rose Young pan oedd hi'n wyth oed. Anfonodd Rose y gerdd at Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer cystadleuaeth farddoniaeth, ac roedd hi'n un o'r enillwyr.

If hate was an animal,  
It would be a green eyed python  
If hate was a place,  
It would be the bottom of the ocean  
If hate was an illness,  
It would be the black plague

If love was a season,  
It would be a warm summer  
If love was a food,  
It would be a birthday cake with six candles  
Love is like a big fat juicy yellow mango

## Sleid 9 – Beth sy'n digwydd ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust?

Ledled y DU, mae miloedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol yn cael eu cynnal bob blwyddyn, mewn ysgolion, cymunedau, llyfrgelloedd, carchardai, amgueddfeydd ac orielau, ymhlith grwpiau ffydd a llawer mwy. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys goleuo canhwyllau, perfformiadau, prosiectau celf, darlleniadau, sgysiau a llawer mwy.

## Sleid 10 – Beth allwn ni ei wneud?

Ar y sgrin, fe welwch chi lawer o syniadau o bethau mae unigolion, grwpiau ac ysgolion wedi'u gwneud yn y gorffennol i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust. Trwy gynnal y gwasanaeth hwn, rydym ni eisoes yn gwneud rhywbeth i ddysgu a chofio. Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am bethau i'w gwneud?

## Sleid 11 – Defnyddia dy lais gwych

Byddwn yn gorffen gyda ffilm fer, sy'n ein hatgoffa o'r grym sydd gennym i sefyll yn gadarn a siarad yn erbyn rhagfarn a chasineb heddiw.

## Sleid 12 – Y Diwedd

# Rhagor o wybodaeth...



Adnoddau eraill Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer addysgwyr:

[hmd.org.uk/education](https://hmd.org.uk/education)

Straeon bywyd gan rai wedi'u heffeithio gan hil-laddiad:

[hmd.org.uk/lifestories](https://hmd.org.uk/lifestories)

[hmd.org.uk](https://hmd.org.uk)  
[enquiries@hmd.org.uk](mailto:enquiries@hmd.org.uk)  
020 7785 7029

 @hmd\_uk  
 hmd.uk

*Dysgu o hil-laddiad – er dyfodol gwell*